

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Gynradd Alltwen
Alltwen Hill
Pontardawe
Abertawe
SA8 3AB**

Rhif yr Ysgol: 6712100

Dyddiadau'r Arolygiad: 27-29 Mawrth 2007

gan

**Peter Mathias
78829**

Dyddiad Cyhoeddi: 4 Mehefin 2007

O dan rif contract Estyn: 1111806

® Hawlfraint y Goron 2007: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Alltwn fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Alltwn rhwng 27/03/07 a 29/03/07, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Peter Mathias. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **byr**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	8
Safonau	8
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	12
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	12
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	14
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	17
Arweinyddiaeth a rheolaeth	19
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	19
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	21
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	22
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	24
Atodiadau	25
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	25
2 Data a dangosyddion ysgol	25
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	26
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	27
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	27

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Mae Alltwen yn ysgol gynradd gymunedol wedi'i lleoli ym mhentref Alltwen ar gyrion Pontardawe ym mhen isaf Cwm Tawe. Yr awdurdod unedol (AU) yw Castell-nedd Port Talbot. Mae 277 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 40 plentyn meithrin sydd yn mynychu ar sail rhan amser. Daw'r disgyblion o ystod eang o gefndiroedd. Ar y cyfan, daw'r mwyafrif o ddisgyblion o gartrefi sydd ddim yn gymdeithasol nac yn economaidd freintiedig nac ychwaith o dan anfantais. Mae cyfran arwyddocaol o blant yn mynychu'r ysgol o du allan i'r ardal leol.
2. Ar dderbyniad yn yr ysgol, mae gan y mwyafrif o blant lefelau sgiliau sylfaenol ychydig yn is na'r cyfartaledd. Adrodda'r ysgol yr ystyrir 27% o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn uwch na chyfartaledd yr AU ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.
3. Ystyrir bod gan tua 8% o ddisgyblion rhyw radd o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae gan un disgybl ddatganiad o AAA ar gyfer anawsterau dysgu penodol. Gwaharddwyd un bachgen dros dro yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf. Nid oes un disgybl wedi'i ddatgymhwyso o'r cwricwlwm cenedlaethol (CC). Ni ofelir am unrhyw ddisgybl gan yr AU.
4. Saesneg yw prif iaith 97% o ddisgyblion. Nid oes un disgybl â'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Ar hyn o bryd, caiff un disgybl gefnogaeth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor y gwanwyn 2001 pan oedd y pennaeth cyfredol yn ei swydd.
5. Yn ystod yr arolygiad yma, roedd pum aelod parhaol o'r staff yn absennol oherwydd salwch. Bu pedwar o'r athrawon hyn yn absennol am beth amser oherwydd salwch tymor hir. Cymerodd athrawon cyflenwi eu lle. Mae tri athro sydd ar y staff ar hyn o bryd, newydd gymhwyso.
6. Mae'r ysgol wedi derbyn Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (2006), y wobr Ysgolion Iach, statws arian Eco-Sgolion ac achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.

Mae nodau'r ysgol yn cynnwys:-

- creu awyrgylch ysgol hapus mewn amgylchedd gofalgar ond disgybledig;
- helpu plant ddysgu bod moesau da ac ystyriaeth am eraill yn briodweddau pwysig iawn;
- sicrhau safonau gwaith a chyflwyniad uchel;
- annog disgyblion i fwynhau holl agweddau'r cwricwlwm trwy weithgareddau addysgu a dysgu ysgogol;
- datblygu chwilfrydedd y plant am y byd ac i drefnu astudiaethau a fydd yn cynnwys yr ardal;
- datblygu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu a bywyd a chael gwerthoedd gymdeithasol da;
- addysgu sgiliau i'r plant i'w paratoi am gymdeithas dechnolegol, sydd yn gynyddol gymhleth; a

- helpu'r plant i gyflawni eu llawn potensial a pheri cariad am ddysgu gydol oes, hamdden a'r celfyddydau.

Datganiad o Genhadaeth yr Ysgol

7. Cydweithio i:
- gyrraedd ein llawn potensial;
 - bod yn gyfrifol ac yn ofalgar tuag at eraill; a
 - dod yn aelod gwerthfawr o'r gymuned.

Arwyddair yr Ysgol

8. Arwyddair yr ysgol yw "Gwybodaeth Sydd Nerth".

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

9. Mae prif flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2006/2007 yn cynnwys:
- parhau i ddatblygu strategaethau i gryfhau asesu ar gyfer dysgu;
 - cymryd camau i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cyfnod sylfaen; ac
 - ymestyn defnydd y disgyblion o'r amgylchedd awyr agored fel adnodd dysgu.

Crynodeb

10. Mae Alltwn yn ysgol dda sydd â rhai nodweddion rhagorol. Mae wedi gwneud cynnydd da ers ei harolygiad diwethaf. Caiff ei harwain yn dda iawn. Erbyn 11 oed, cyflawna'r disgyblion yn dda a gwnânt gynnydd da.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	2
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

11. Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda phedwar o'r saith dyfarniad a wnaed gan yr ysgol am y safonau y cyflawna'r disgyblion ac am feysydd eraill ar ei gwaith. Lle mae'r tîm arolygu yn anghytuno, roedd yr ysgol wedi goramcangyfrif o un radd ar ba mor dda cyflawna'r dysgwyr, ansawdd cyffredinol y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a ddarpara ar gyfer dysgu a pha mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu a gwella ansawdd a safonau.

Safonau

12. Gan mai arolygiad byr oedd hwn, ni wneir unrhyw ddyfarniadau am safonau cyflawniad mewn pynciau yn y gwersi a welwyd.
13. Mae ansawdd cyffredinol yr addysg a ddarperir ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w anghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu'r Plant.
14. Mae llawer o blant yn dechrau'r ysgol gyda sgiliau sylfaenol sydd ychydig yn is na'r lefelau disgwylidig. Gwna'r plant gynnydd da yn yr holl feysydd dysgu a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Yn yr holl feysydd dysgu, cyflawna'r plant yn dda fel y gwna'r holl ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, gan gynnwys y rheini gyda rhywfaint o AAA.
15. Yn gyffredinol, mae safonau a chynnydd y disgyblion yn y sgiliau allweddol yn Radd 2 (nodweddion da a dim diffygion pwysig). Wrth gyfathrebu mewn Saesneg yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau yn Radd 2. Siarada'r disgyblion yn hyderus a chlir. Gwrandawant yn dda. Maent yn datblygu geirfa dechnegol briodol, er enghraifft mewn gwyddoniaeth. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, darllena'r disgyblion yn dda am wybodaeth ac er pleser. Mae sgiliau ysgrifennu'r disgyblion hefyd yn Radd 2. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, ysgrifenna'r disgyblion yn dda am ystod eang o resymau.
16. Mae safonau a chynnydd y disgyblion yn y fedr allweddol o gyfathrebu yn Gymraeg yn Radd 2. Mewn siarad a gwrandaw ac wrth ysgrifennu'n Gymraeg, mae safonau'r disgyblion yn Radd 2. Mewn darllen yn Gymraeg, mae safonau yn Radd 3 (nodweddion da yn gorbwyso diffygion) yn y ddau gyfnod allweddol. Mae diffyg rhuglder a hyder gan ddisgyblion wrth ddarllen Cymraeg. Mae sgiliau dwyieithrwydd y disgyblion hefyd yn Radd 3. Nid yw'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd digonol i ymarfer siarad yn Gymraeg mewn pynciau eraill ac o amgylch yr ysgol.
17. Mae sgiliau mathemategol y disgyblion mewn pynciau eraill yn Radd 2 yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Yng nghyfnod allweddol 1, er enghraifft mae'r disgyblion yn mesur a phwyso'n gywir pan ddefnyddiant ryseitiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn mesur yn ofalus wrth ddylunio a gwneud mewn dylunio a thechnoleg neu wrth gofnodi cyfradd curiad y galon mewn addysg gorfforol.
18. Defnyddia'r disgyblion eu sgiliau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda iawn. Mae hyn yn Radd 1 (da gyda nodweddion rhagorol). Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn ymchwilio'r Rhynggrwyd yn hyderus iawn wrth ymofyn gwybodaeth. O fewn cyfnodau allweddol 1 a 2, defnyddia'r disgyblion TGCh yn dda i wneud cyflwyniadau am destunau a astudiant. Defnyddiant becynnau celf yn effeithiol iawn i ddylunio, er enghraifft, fel rhan o'u gwaith mewn daearyddiaeth a hanes. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae gwybodaeth y disgyblion o nodweddion arbennig diwylliant ac etifeddiaeth Gymreig yn Radd 2. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o draddodiadau a ffyrdd o fyw yng Nghymru wledig a diwydiannol. Maent yn eiwa'n sylweddol o ystod eang o gyfleoedd tu mewn ac allan yr ysgol, i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol a dawns.

19. Mae sgiliau personol y disgyblion a'u sgiliau datrys problemau yn Radd 2. Dangosa'r disgyblion barch ac ystyriaeth at ei gilydd. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn gwneud penderfyniadau dros eu hunain, er enghraifft wrth greu briff dylunio. Gwnânt benderfyniadau cadarn ar sut i wella bywydau eu hunain.
20. Mae sgiliau creadigol y disgyblion wedi'u datblygu'n dda ac yn Radd 1. Mae gwaith y disgyblion mewn celf a cherddoriaeth yn dda iawn. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dysgu sut i chwarae ystod o offerynnau cerddorol, yn aml i safon uchel. Mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu dramâu yn Saesneg ac yn dylunio a gwneud deunyddiau a chrogluniau o ansawdd uchel iawn.
21. Gweithia'r disgyblion yn fodlon a llwyddiannus gyda'i gilydd. Mae ganddynt hyder yn eu hathrawon ac o ganlyniad maent yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth y derbyniant. Cydweithia'r bechgyn a merched yn hapus gyda'i gilydd ac maent yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.
22. Mae dealltwriaeth y disgyblion o sut i wella dysgu eu hunain yn Radd 2. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae'r disgyblion yn gwybod y targedau a osodwyd ar eu cyfer mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn elwa wrth y cyngor a roddir iddynt trwy'r ffordd gadarnhaol y marcir eu gwaith.
23. Yn asesiadau cenedlaethol 2006 ar gyfer disgyblion saith mlwydd oed mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, roedd cyfrannedd y disgyblion oedd yn cyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn uwch na chyfartaledd y AU mewn Saesneg a mathemateg ac yn is na chyfartaleddau'r AU a chenedlaethol mewn gwyddoniaeth. Wrth gyfuno'r canlyniadau hyn, cyflawnodd y disgyblion yn uwch na chyfartaleddau'r AU a chenedlaethol.
24. O gymharu gydag ysgolion sydd â chyfrannedd tebyg o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn yr AU, roedd y canlyniadau'n uwch na'r mwyafrif o'r ysgolion tebyg hyn mewn Saesneg a mathemateg ac yn is na'r mwyafrif o'r ysgolion hyn mewn gwyddoniaeth. Pan gyfunir y canlyniadau, perfformiodd yr ysgol yn uwch na'r mwyafrif o'r ysgolion hyn. Perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn yn y tri phwnc yn yr asesiadau hyn. Ers 2002, mae'r canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella.
25. Yn yr asesiadau cenedlaethol ar gyfer disgyblion 11 oed yn 2006, roedd cyfrannedd y disgyblion oedd yn cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r AU. Mae'r bechgyn a'r merched yn cyrraedd safonau sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y tri phwnc. Mae'r merched yn parhau i berfformio'n well na'r bechgyn yn yr asesiadau hyn.
26. Mae canlyniadau'r ysgol yn 2006 mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn uchel iawn ac yn uwch mewn mathemateg o gymharu ag ysgolion yn yr AU gyda thua'r un cyfrannedd o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim. Pan gyfunir y canlyniadau hyn, perfformiodd yr ysgol yn well na'r mwyafrif o'r ysgolion hyn. Ers 2002, mae canlyniadau yn yr asesiadau hyn ar gyfer disgyblion 11 oed wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r AU a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi rhagori ar y targedau a osodwyd ar ei chyfer mewn ymgynghoriaeth â'r AU.
27. Mae agweddau'r disgyblion at eu dysgu yn gadarnhaol iawn. Mae safonau ymddygiad ar draws yr ysgol yn dda ac yn cyfrannu'n sylweddol tuag at yr ethos

cadarnhaol o fewn yr ysgol. Dangosa'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cyfle cyfartal. Maent yn deall a pharchu amrywiaeth mewn cymdeithas ac yn gwybod bod gan bobl eraill ddiwylliannau, credoau a ffyrdd o fyw sydd yn wahanol i'w rai nhw. Mae presenoldeb ar 90.6% yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yn yr AU ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn arwyddocaol is na'r lefel ddisgwyliedig a'r targed a osodwyd.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
27%	63%	10%	0%	0%

28. Yn y gwersi a welwyd, mae canran y gwersi Gradd 1 a 2 yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei hadroddiad blynyddol (2005/2006). Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd o leiaf yn Radd 2 mewn 79% o wersi gyda 17% â nodweddion rhagorol.
29. Yn y meithrin a'r derbyn, dangosa'r athrawon ddealltwriaeth dda o sut i gynllunio a threfnu i'w plant gymryd rhan, a mwynhau'n hapus, ystod eang o brofiadau dysgu priodol iawn. Mae'r plant yn cyflawni'n dda, yn aml o fannau cychwyn ychydig yn is na'r cyfartaledd.
30. Ar draws yr ysgol, yng ngwersi gorau cyfnodau allweddol 1 a 2, mae nodweddion cryf yn cynnwys:
 - cynllunio gofalus iawn sydd yn cynnwys amcanion clir;
 - gwybodaeth bynciol dda iawn;
 - gwaith wedi'i gydweddu'n dda i wahanol alluoedd y disgyblion gan gynnwys disgyblion ag AAA a gaiff eu cynnwys yn llawn yn y gwersi;
 - cefnogaeth ac anogaeth brysur a pwrpasol iawn; a
 - defnydd hyderus o TGCh i wneud gwersi yn ddiddorol ac addysgiadol.
31. Yn y nifer bach o wersi lle'r oedd diffygion yn yr addysgu, roedd y rhain yn cynnwys:
 - gormod o amser yn cael ei dreulio ar gyflwyno'r testun ac esbonio'r disgwyliadau; ac
 - mewn rhai gwersi, caiff cyfleoedd eu colli i hyrwyddo sgiliau dwyieithrwydd y disgyblion.
32. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac effeithiol. Mae sylwadau'r athrawon yn gadarnhaol ac adeiladol. Caiff asesiadau gwaelodlin eu defnyddio'n dda i osod targedau unigol. Caiff gwaith y disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ei asesu'n rheolaidd. Defnyddir deunyddiau asesu dibynadwy eraill yn dda pob tymor mewn Saesneg a mathemateg i ragfynegi cynnydd disgyblion tuag at y lefelau sydd i ddisgwyli ohonynt fel unigolion yn gywir.
33. Ceir casgliadau o waith y disgyblion yn holl bynciau'r CC. Mae'r casgliadau hyn o waith mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn rhoi darlun clir o'r safonau dylai'r disgyblion gyflawni blwyddyn ar flwyddyn. Nid yw'r broses hon

wedi'i chwblhau mewn pynciau eraill. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol.

34. Darpara'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys sydd yn hygyrch i'r holl ddisgyblion. Mae gan ansawdd cyffredinol y cwricwlwm nodweddion rhagorol a chynigir profiadau cyfoethog i ddisgyblion.
35. Mae cwricwlwm y blynyddoedd cynnar yn ffocysu'n effeithiol iawn ar y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu'r Plant ac mae'r profiadau dysgu a gynigir yn cwrdd ag anghenion a diddordeb plant ifanc yn dda iawn. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, darpara'r ysgol ystod eang o weithgareddau diddorol a heriol. Mae'r ddarpariaeth oddi ar y safle, yr ystod o ymwelwyr a'r gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn sylweddol.
36. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf. Mae'r ysgol yn pwysleisio diwylliant Cymreig ac etifeddiaeth Cymru yn dda. Fodd bynnag, ceir defnydd annigonol o Gymraeg achlysurol. Ceir gweithdrefnau effeithiol iawn sydd wedi'u ffocysu'n dda i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill i safon arbennig o uchel. Ceir ymrwymiad clir iawn i gyfleoedd cyfartal. Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysiad effeithiol iawn.
37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae gweithredoedd o gydaddoli yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol a cheir llawer o gyfleoedd mewn gwasanaethau a gwersi i'r disgyblion fyfyrion ac ehangu eu profiadau esthetig.
38. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol yn dda iawn. Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o rai sydd yn llai ffodus na nhw yn lleol ac yn y byd ehangach. Mae gan ddisgyblion ystod eang o gyfleoedd i gymryd cyfrifoldebau ac i ddangos menter. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn nodwedd gref ac effeithiol o fywyd ysgol. Rhoddir pwyslais sylweddol ar hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac ar wneud disgyblion yn llwyr ymwybodol o faterion ecolegol ac amgylcheddol.
39. Mae'r cysylltiadau gyda rhieni a'r gymuned leol yn gryf ac yn fanteisiol i'r naill a'r llall. Ceir cysylltiadau niferus o ansawdd da gyda'r byd gwaith. Caiff addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy ei hyrwyddo'n llwyddiannus o fewn yr ysgol. Ceir cyngor-eco brwdfrydig. Mae gan ddisgyblion ystod dda o sgiliau sydd yn hynod werthfawr ar gyfer dysgu gydol oes. Mae'r disgyblion yn dechrau cael dealltwriaeth dda o fyd masnach.
40. Mae'r holl ddisgyblion yn derbyn gofal, cyfarwyddyd a chefnogaeth o ansawdd da. Mae'r disgyblion yn hapus i droi i staff sydd yn eu trin yn sensitif pan godir problemau. Mae trefniadau anwytho a gynlluniwyd yn dda ar gyfer y plant ieuengaf yn eu helpu ymgartrefu'n dda iawn yn yr ysgol ac i deimlo'n ddiogel. Ceir trefniadau trylwyr mewn lle a ddefnyddir yn dda i fonitro prydlondeb a phresenoldeb. Ceir trefniadau da i sicrhau iechyd a lles y disgyblion. Cedwir y rhain wedi'u diweddarau. Mae gweithdrefnau amddiffyn plant priodol mewn lle a chânt eu deall gan yr holl staff.
41. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, yn dda ac fe'i rheolir yn dda. Caiff yr holl ddisgyblion eu hintegreiddio'n dda i fywyd yr ysgol a chânt eu trin yn gyfartal. Caiff y cynnydd a wna disgyblion ag AAA ei fonitro'n ofalus. Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn benodol ac amlinellant yn glir yr hyn

sydd angen gwneud i gyflawni'r targedau a osodwyd. Fe'u hadolygir yn rheolaidd. Mae'r gefnogaeth gan gynorthwyrwyr addysgu ac asiantaethau allanol yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi cyflawni arolwg manwl i asesu argaeledd mynediad i bobl sydd ag anableddau corfforol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

42. Mae gan arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol lawer o gryfderau arwyddocaol, sydd wedi sicrhau bod yr ysgol wedi gweithredu fel cymuned bwrpasol ac effeithiol iawn lle mae morâl yn uchel er waethaf newidiadau staff arwyddocaol. Mae gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth weledigaeth glir iawn, cyfrannol i hyrwyddo addysg o ansawdd uchel i'r holl ddisgyblion. Cydweithia'r staff yn frwdfrydig ac yn agos. Ceir systemau manwl mewn lle i adolygu cynnydd y disgyblion. Fe'u defnyddir yn dda i osod targedau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
43. Cymera'r ysgol ystyriaeth ofalus o flaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol. Ceir clybiau brecwast ac ar ôl ysgol a gefnogir yn dda. Mae'r cyngor ysgol wedi'u sefydlu'n dda ac yn effeithio'n weithredol ar ymdeimlad y disgyblion o gyfrifoldeb a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth. Mae paratodau ar gyfer cyflwyno'r cynnod sylfaen yn mynd rhagddynt yn dda. Mae trefniadau i ddarparu amser i athrawon yn ystod yr wythnos addysgu i gynllunio, paratoi ac asesu (CPA) yn effeithiol a chânt eu rheoli'n dda iawn. Ceir pwyslais clir iawn ar roi ymwybyddiaeth dda iawn i ddisgyblion o bwysigrwydd ffyrdd iach o fyw a materion ecolegol ac amgylcheddol.
44. Ceir partneriaeth gref gyda'r ysgol uwchradd y trosglwydda'r mwyafrif o ddisgyblion iddi a gyda cholegau a sefydliadau addysg uwch lleol. Fodd bynnag, tra bod yr ysgol yn cydnabod yr angenrheidrwydd i hyrwyddo dwyieithrwydd mewn addysgu a dysgu, nid yw wedi datblygu ei hymagwedd at y fenter hon yn gyson.
45. Gweithia'r cydlynwyr yn effeithiol iawn gyda'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli i adolygu ansawdd yr addysgu a'r dysgu a chynnydd mentrau, a gaiff eu dilyn. Ceir trefniadau manwl ac effeithiol i gefnogi athrawon newydd gymhwyso ac athrawon sydd yn newydd i'r ysgol. Mae trefniadau i reoli a hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn eang ac wedi'u sefydlu'n dda.
46. Mae cysylltiadau rhwng y corff llywodraethol a'r ysgol yn gryf. Gweithia'r llywodraethwyr yn agos ac effeithiol gyda'r pennaeth a'r staff. Mae'r llywodraethwyr wedi'u hysbysu'n dda. Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn ymrwymedig iawn i'r ysgol a darpara arweinyddiaeth glir. Mae'r llywodraethwyr yn monitro deilliannau eu penderfyniadau yn ofalus. Maent yn dal staff proffesiynol yr ysgol yn briodol gyfrifol ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion strategol hir dymor yr ysgol.
47. Mae rheolaeth gyllidol yn dda. Adolygir penderfyniadau gwariant y llywodraethwyr yn drwyadl. Mae'r corff llywodraethol yn cwrdd â'i holl ofynion statudol yn llawn. Mae gweinyddiaeth dydd-i-ddydd yr ysgol yn llyfn, effeithlon a hwylus.
48. Mae'r broses hunan-arfarnu yn gynhwysfawr ac wedi ei seilio'n gadarn ar safbwyntiau'r rheini sydd ynghlwm wrth yr ysgol. Mae dogfen hunan-arfarnu'r ysgol wedi ei llunio'n dda a darpara ddadansoddiad manwl o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Ceir cysylltiadau a adeiladwyd yn ofalus iawn â'r cynllun

gwella ysgol (CGY), a gaiff ei ddefnyddio'n dda fel dogfen weithio i hyrwyddo gwelliant ysgol. Ceir cylchred a sefydlwyd yn dda mewn lle i gysylltu'r CGY i weithdrefnau a blaenoriaethau rheoli perfformiad.

49. Mae hunan-arfarnu'r ysgol ar y cyfan yn gywir. Ers yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 2001, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn dda â materion allweddol yr arolygiad hwnnw.
50. Ceir digon o staff addysgu a rhai nad ydynt yn addysgu gyda chymwysterau da, a gaiff eu lleoli a'u hyfforddi'n dda iawn. Mae ystod a nifer dda iawn o adnoddau ar gael ar draws yr ysgol i gefnogi'r holl bynciau ac ar gyfer plant dan bump. Mae'r rhain o ansawdd da iawn. Caiff adeilad yr ysgol a'r ardaloedd awyr agored eu cynnal yn dda ac fe'u defnyddir yn effeithiol iawn. Un o gryfderau rhagorol yr ysgol yw ansawdd uchel iawn yr arddangosfeydd sydd yn cyfrannu'n fawr at awyrgylch ysgogol ac esthetig yr ysgol.
51. At ei gilydd, a chofio safonau cyflawniad nifer o'r disgyblion erbyn 11 oed, yn aml o sylfaen ychydig yn is na'r cyfartaledd, ac ansawdd cyffredinol yr addysg a ddarperir, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

- A1 codi lefelau presenoldeb fel eu bod o leiaf yn unol â'r rhai disgwylidig;
- A2 gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau dwyieithrwydd; a
- A3 cwblhau'r broses o greu casgliadau o waith y disgyblion sydd yn dynodi'r safonau y dylai'r disgyblion eu cyflawni blwyddyn ar flwyddyn, a ddynododd yr ysgol fel blaenoriaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

52. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu'r dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Mae hyn oherwydd i'r ysgol goramcangyfrif fesul un radd pa mor dda cyflawna'r dysgwyr, eu cynnydd mewn dysgu a datblygiad eu sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu. Tra ceid rhai nodweddion cryf yn y meysydd hyn, roeddent yn annigonol i gefnogi'r radd uwch.
53. Mae asesiadau gwaelodlin yn dynodi bod cyflawniad ychydig yn is na'r cyfartaledd pan ddechreu'r plant yn yr ysgol. Mae ansawdd cyffredinol yr addysg a ddarperir i blant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant

gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Cyflawna'r disgyblion ag AAA yn dda.

54. Yn asesiadau cenedlaethol 2006 ar gyfer disgyblion saith mlwydd oed mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, roedd cyfrannedd y disgyblion a oedd yn cyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn uwch na chyfartaledd yr AU ac yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol mewn Saesneg a mathemateg, ond yn is na chyfartaledd yr AU a chenedlaethol mewn gwyddoniaeth. Wrth gyfuno'r canlyniadau hyn, cyflawnodd y disgyblion yn uwch na chyfartaleddau'r AU a chenedlaethol.
55. Wrth gymharu ag ysgolion a ystyrir gyda chyfraneddau tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn yr AU, roedd y canlyniadau yn uwch na'r mwyafrif o'r ysgolion tebyg hyn mewn Saesneg a mathemateg ac yn is na'r mwyafrif o'r ysgolion hyn mewn gwyddoniaeth. Wrth gyfuno'r canlyniadau hyn, perfformiodd yr ysgol yn uwch na'r mwyafrif o'r ysgolion tebyg hyn. Perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn yn y tri phwnc yn yr asesiadau hyn. Ers 2002, mae'r canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella.
56. Yn yr asesiadau cenedlaethol ar gyfer disgyblion 11 oed yn 2006, roedd cyfrannedd y disgyblion oedd yn cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Cryfder arbennig yw bod bechgyn a merched yn cyrraedd safonau sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y tri phwnc. Yn hanesyddol, mae'r bechgyn wedi perfformio'n is na'r cyfartaleddau hyn pan oeddent yn saith mlwydd oed. Fodd bynnag, mae'r merched yn parhau i berfformio'n well na'r bechgyn yn yr asesiadau hyn. Wrth gymharu'r canlyniadau hyn â rhai'r ysgolion yn yr AU a ystyrir gyda chyfrannedd tebyg o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, roedd y canlyniadau hyn yn uchel iawn mewn Saesneg a gwyddoniaeth ac yn uwch na'r mwyafrif o'r ysgolion hyn ym mathemateg. Wrth gyfuno'r canlyniadau hyn, perfformiodd yr ysgol yn well na mwyafrif o'r ysgolion tebyg hyn. Ers 2002, mae canlyniadau'r asesiadau hyn ar gyfer disgyblion 11 oed wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r AU a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi rhagori ar y targedau a osodwyd ar ei chyfer mewn ymgynghoriaeth â'r AU.
57. At ei gilydd, mae cyflawniadau'r disgyblion yn y sgiliau allweddol yn Radd 2. Wrth gyfathrebu mewn Saesneg yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau'r disgyblion yn Radd 2. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, siarada'r disgyblion yn hyderus. Mynegant eu syniadau yn glir a gwrandawant yn dda. Dangosant eirfa dechnegol gynyddol, er enghraifft pan ddisgrifiant sut mae ia yn newid o solet i hylif a sut caiff cyddwysiad ei ffurfio. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae sgiliau darllen y disgyblion yn Radd 2. Darllena'r disgyblion am wybodaeth yn gywir mewn llyfrau ac o'r Rhyngrwyd. Defnyddiant eu gwybodaeth am sut i ddefnyddio mynegai a rhestr termau yn dda i ddarganfod pethau dros eu hunain o ystod o ffynonellau.
58. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae sgiliau ysgrifennu'r disgyblion mewn Saesneg yn Radd 2. Mae disgyblion ieuengach yng nghyfnod allweddol 1 yn ysgrifennu cyfarwyddiadau mewn trefn resymegol, er enghraifft disgrifio sut i wneud pryd o fwyd. Maent yn ailddweud storïau yng ngeiriau eu hunain. Yng nghyfnod allweddol 2, ysgrifenna'r disgyblion yn dda ar gyfer ystod eang o resymau. Er

enghraifft mewn daearyddiaeth, ysgrifennant benillion a berthyn i'w hastudiaeth o Chembokolli yn India. Ysgrifennant yn berswadiol, gan ddadlau pam ddylid gwahardd gwisg ysgol. Maent yn ysgrifennu portreadau o gymeriadau a chreu golygfeydd dramatig eu hunain, wrth ysgrifennu mewn deialog uniongyrchol.

59. Mae cyflawniadau disgyblion mewn cyfathrebu yn Gymraeg yn Radd 2. Mae cyflawniadau disgyblion wrth siarad a gwrando ac ysgrifennu yn Gymraeg yn Radd 2. Mewn darllen yn Gymraeg, mae safonau'n Radd 3 yn y ddau gyfnod allweddol. Mae gan ddisgyblion ddiffyg hyder a rhuglder wrth ddarllen yn Gymraeg. O ystyried eu gwahanol bwyntiau cychwyn, mae medrau dwyieithrwydd y disgyblion hefyd yn Radd 3. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw disgyblion yn cyflawni'r safonau maent yn alluog i wneud oherwydd nad ydynt yn derbyn digon o gyfleoedd i ymarfer siarad Cymraeg mewn pynciau eraill ac o amgylch yr ysgol.
60. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae defnydd disgyblion o'u medrau mathemategol mewn pynciau eraill yn Radd 2. Mae disgyblion ieuengach cyfnod allweddol 1 yn mesur a phwyso yn gywir wrth baratoi bwyd, er enghraifft i ddathlu gŵyl Hindŵ neu wrth wneud bara. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn mesur yn ofalus wrth gynllunio reidiau ffair gweithiol a chardiau Nadolig. Maent yn cofnodi curiad y galon wrth edrych ar fanteision ymarfer cysylltiedig ag ieched mewn addysg gorfforol. Maent yn arddangos, mewn ffurf graffig, gwybodaeth maent wedi eu casglu mewn gwyddoniaeth, er enghraifft wrth gyfrifo faint o awyr sydd yn gaeth yn y pridd.
61. Defnyddia disgyblion eu medrau TGCh yn dda iawn. Mae hyn yn Radd 1 ac yn gryfder penodol yng nghyfnod allweddol 2. Yn y ddau gyfnod allweddol, maent yn ymgymryd ag ymchwiliadau am wybodaeth yn hyderus iawn, er enghraifft i ddarganfod am fywydau rhai pobl enwog megis H G Wells a'r Fam Theresa. O fewn cyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn rhaglennu tegau 'Crwydro' i ymgymryd â chyfres o symudiadau mewn dylunio a thechnoleg. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio TGCh yn effeithiol iawn i wneud cyflwyniadau ar themâu maent yn astudio mewn hanes a daearyddiaeth, er enghraifft, wrth astudio effaith cynhesu byd-eang a chwarela ar ardal o harddwch naturiol. Maent yn drafftio, golygu ac argraffu gwaith eu hunain yn broffesiynol iawn, er enghraifft wrth astudio Sant Lucia mewn daearyddiaeth. Defnyddiant gamerâu digidol yn dda iawn i enghreifftio eu gwaith. Maent yn cynllunio patrymau papur wal o wahanol ddiwylliannau yn gywir iawn trwy ddefnyddio pecyn celf.
62. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae gwybodaeth disgyblion o nodweddion arbennig cerddoriaeth, dawnsio, celf, hanes, llenyddiaeth a thraddodiadau Cymreig a Chymru yn Radd 2. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ymwybodol o ychydig o hanes eu hardal leol a thrwy ymweliadau ag Amgueddfa Abertawe ag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, maent yn deall peth o'r traddodiadau a'r ffyrdd o fyw yn y Gymru wledig a diwydiannol. O fewn cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn dysgu a pherfformio cerddoriaeth a dawnsfeydd gwerin Cymreig yn dda iawn. Manteisiant oddi wrth ystod eang o gyfleoedd, y tu fewn a thu allan i'r ysgol, i ddysgu am gyflawniadau diwylliant Cymreig.
63. Mae medrau personol disgyblion yn Radd 2. Mae disgyblion ar draws cyfnodau allweddol 1 a 2 yn arddangos parch ag ystyriaeth i'w gilydd ac oedolion. Maent

yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn rhwydd ac yn cydweithio'n barod ac yn adeiladol.

64. Mae medrau datrys problemau'r disgyblion hefyd yn Radd 2. Ar draws yr ysgol, gwna disgyblion benderfyniadau tros eu hunain, er enghraifft wth wneud briff cynllunio yn dylunio a thechnoleg neu wrth ddarganfod esboniadau i ffenomen maent yn arsylwi yng ngwyddoniaeth. Gwnânt benderfyniadau doeth am wella bywydau eu hunain.
65. Mae medrau creadigol disgyblion yn Radd 1. Yng nghelf, gweithia disgyblion mewn dau a thri-dimensiwn i safon uchel. Maent yn cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth eu hunain yn hyderus a medrus iawn. Mae nifer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dysgu sut i chwarae offeryn cerdd yn dda iawn ac yn perfformio'n hyderus ac yn fedrus. Maent yn creu dramâu yn Saesneg ac yn cynllunio ystod eang o arteffactau yn dylunio a thechnoleg. Maent yn cynllunio a gwneud ffabrigau a chrogluniau o ansawdd uchel iawn.
66. Cydweithia'r disgyblion yn barod ac yn llwyddiannus. Mae ganddynt hyder yn eu hathrawon ac yn siarad ac ymateb yn gadarnhaol iawn i gyngor a chyfarwyddiadau. Yng nghyfnod allweddol 1, o oedran cynnar gweithia'r disgyblion yn rhwydd mewn parau a grwpiau bychain. Maent yn cydweithio'n dda. O fewn cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cydweithio'n effeithiol i ddatrys problemau ac i drafod eu gwaith. Cydweithia'r bechgyn a'r merched yn hapus ac maent yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.
67. Mae dealltwriaeth disgyblion o sut i wella dysgu eu hunain yn Radd 2. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae gan ddisgyblion dealltwriaeth dda o beth sydd angen iddynt wneud i wella yn y tymor byr a hirach mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Gwyddant y targedau a osodir iddynt ac maent yn elwa oddi wrth y cyngor cadarnhaol a dderbyniant ar lafar ac mewn sylwadau ysgrifenedig yn eu llyfrau.
68. Mae ymagweddau disgyblion at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i gynnal eu canolbwyntio yn nodweddion rhagorol. Gweithia disgyblion yn ddiwyd yn eu gwersi ac maent yn barod i gyfranogi yn yr ystod o weithgareddau a ddarperir gan arddangos brwdfrydedd tuag at y gwaith.
69. Ceir safonau ymddygiad da ar draws yr ysgol, sydd yn cyfrannu tuag at yr ethos cadarnhaol ac yn gydnaws ag addysgu effeithiol. Mae disgyblion yn perthnasu'n dda gyda'i gilydd a gyda'r oedolion sydd yn gweithio gyda nhw. Mae disgyblion B6 yn aeddfedu ac ar y cyfan yn fodelau rôl da i'w cymheiriaid iau.
70. Cyfartaledd y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad oedd 90.6%, sydd yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd tebyg o fewn yr AU ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'n sylweddol is na'r lefel disgwyliedig a'r targedau a osodir. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.
71. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol, i wella dysgu eu hunain, yn datblygu'n dda. Mae eu parodrwydd i gydweithio a helpu ei gilydd hefyd yn nodwedd gadarnhaol ym mhob dosbarth.
72. Gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol. Gweithiant yn dda mewn gwersi a defnyddiant eu hamser yn effeithiol.

Arddangosant barch a chonsyrn am eraill a gonestrwydd a thegwch ym mhob agwedd o fywyd ysgol.

73. Arddangosa disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cyfle cyfartal. Maent yn deall ac yn parchu amrywiaeth o fewn cymdeithas. Mae themâu cwricwlaidd yn sicrhau eu bod yn deall fod gan nifer o bobl ddiwylliannau, credoau a ffyrdd o fyw sydd yn wahanol i'w profiadau nhw eu hunain.
74. Mae'r gwerthoedd a'r ymagweddau cadarnhaol a anogir gan yr ysgol, y cyfleoedd i ddisgyblion i ddysgu am eu cymuned ac ymhellach i ffwrdd, a'r cyfle i leisio barn trwy'r cyngor ysgol, yn darparu sylfeini cadarn i ddealltwriaeth disgyblion yn y dyfodol o ddinasyddiaeth dda.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

75. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
76. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
27%	63%	10%	0%	0%

77. Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well heb unrhyw ddiffygion pwysig, hynny yw Gradd 1 a Gradd 2 mewn 90% o'r gwersi. Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol mewn 27% o'r gwersi. Mae'r ffigurau yma'n cymharu'n dda gyda'r darlun cenedlaethol fel y'i hadroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei Hadroddiad Blynyddol (2005/06). Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yn o leiaf Gradd 2 mewn 79% o wersi gydag 17% ohonynt â nodweddion rhagorol.
78. Yn y meithrin a'r derbyn, arddangosa'r athrawon ddealltwriaeth glir iawn o sut i gynllunio a threfnu i'r plant gymryd rhan mewn a mwynhau'n hapus ystod eang o brofiadau dysgu priodol iawn. O ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu'n llwyddiannus i mewn i'r ysgol ac yn cyflawni'n dda, yn aml o ychydig yn is na'r pwyntiau cychwyn cyfartalog.
79. Ar draws yr ysgol, yn y gwersi gorau, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus iawn ac mae gwersi'n bwrpasol iawn. Gwneir amcanion y wers yn glir iawn ac mae pob disgybl yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt o fewn yr amser sydd ar gael. O ganlyniad, mae dysgu ar gyflymder sionc. Trwy gwestiynu gofalus, caiff disgyblion eu hatgoffa'n effeithiol o beth maent wedi dysgu'n flaenorol.
80. Arddangosa'r athrawon wybodaeth bynciol dda iawn, er enghraifft mewn gwrs hanes am 'Bradau'r Llyfr Glas', lle cafodd y disgyblion eu hannog yn fedrus iawn i ofyn cwestiynau hanesyddol a chymryd rhan mewn chwarae rôl. Mae athrawon yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i ymgymryd ag arbrawf mewn gwyddoniaeth yn gywir, oherwydd eu bod nhw eu hunain yn gwybod sut i sicrhau fod y canlyniadau yn gadarn a gellid eu hail-greu. Defnyddir adnoddau i fwyhau'r dysgu yn dda iawn, er enghraifft i

hyrwyddo safonau uchel mewn dawn trwy'r defnydd effeithiol o ddarnau byr allan o'r sioe gerdd *'West Side Story'* i enghreifftio'r safonau dylai disgyblion anelu i'w cyflawni.

81. Mae athrawon yn cydweddu'r her yn eu gwaith yn dda i alluoedd eu disgyblion. Sicrhânt fod pob un yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn briodol trwy gymorth a chefnogaeth brysur a phriodol. Maent yn trin yr holl ddisgyblion yn gyfartal a theg.
82. Ar draws yr ysgol, yn y gwersi gorau, arddangosa'r athrawon ymagweddau cadarnhaol a chefnogol iawn tuag at eu disgyblion trwy'r ffordd ystyriol maent yn annog disgyblion i feddwl pethau allan dros eu hunain ac i gael fod dysgu'n hwyl. O ganlyniad, yn ddieithriad mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gwneud eu gorau oherwydd eu bod am blesio eu hathrawon. Gwyddant y caiff eu hymdrechion eu gwerthfawrogi. Ar draws yr ysgol, arddangosa athrawon hyder a gallu i ddefnyddio TGCh yn dda i wneud eu gwersi'n ddiddorol a llawn gwybodaeth. Sicrhânt fod pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag AAA, yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu gwersi.
83. Yn y nifer fechan o wersi lle'r oedd peth diffygion yn yr addysgu, roedd gormod o amser yn cael ei wario i gyflwyno'r pwnc ac egluro'r disgwyliadau. O ganlyniad, roedd gan ddisgyblion amser annigonol i orffen y dasg. Mewn rhai gwersi, collwyd ar gyfleoedd i hyrwyddo medrau dwyieithrwydd disgyblion ac i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn naturiol yn eu hymatebion.
84. Mae polisi asesu, cofnodi a chyflwyno'r ysgol yn glir a chynhwysfawr, ac mae'r gweithdrefnau yn effeithiol.
85. Caiff gwaith disgyblion ar draws yr ysgol ei farcio'n rheolaidd a'u gysylltu'n effeithiol i amcanion y wers. Rhoddir sylwadau cadarnhaol ac adeiladol yn gyson i waith disgyblion i'w hannog ac i gymeradwyo ymdrech, ac yn yr esiamplau gorau, maent hefyd yn awgrymu sut y gellid gwella agweddau penodol. Mae'r sylwadau yna, a rhoddir fel cwestiynau, wedi eu cynllunio i wneud i'r disgyblion feddwl tros eu hunain, yn hynod o effeithiol.
86. Defnyddir asesu sylfaen yn dda i osod targedau unigol ar gyfer y plant dan bump, ac mae arsylwi a chofnodi gofalus a pharhaus trwy gydol y flwyddyn yn monitro cynnydd disgyblion tuag at amcanion dysgu.
87. Caiff samplau o waith disgyblion cyfnodau allweddol 1 a 2 ym mhynciau Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth eu hasesu a'u lefelu bob tymor yn unol â dangosyddion y CC. Cedwir y rhain fel cofnod o gynnydd mewn ffeiliau asesu athrawon. Ceir defnydd cynyddol o ddeunydd opsiynol ar gyfer asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol. Rhoddir profion safonol dibynadwy yn flynyddol mewn Saesneg a mathemateg i ddisgyblion o B2 i B6, ynghyd â deunydd ystadegol ac asesiadau athrawon. Defnyddir y rhain yn dda i ragfynegi cynnydd disgyblion tuag at eu lefelau targed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.
88. Mae ffeiliau asesu athrawon hefyd yn cynnwys cofnodion tracio ar gyfer disgyblion unigol, sydd yn cofnodi'r lefelau a gyflawnir mewn pob targed cyflawniad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Cafodd y rhain eu datblygu ymhellach ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon i gofnodi cyrhaeddiad disgyblion ar bob disgrifydd lefel. I gyd-fynd â'r rhain, ceir cofnod o ddatblygiad medrau cyfathrebu'r disgyblion.

89. Defnyddir strategaethau arloesol i osod a rhannu targedau yn wythnosol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ychwanegir at y rhain gan restru o fedrau allweddol, a 'wal ddysgu' ym mhob dosbarth lle caiff targedau cyfredol eu harddangos. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion i werthuso pa un ai maent wedi cyflawni bwriad y wers trwy ddefnyddio meini prawf llwyddiant cytunedig. Cânt eu hannog i edrych ar waith eu hunain ac eraill, ac i drafod pa mor llwyddiannus maent wedi bod wrth gyrraedd y targed cytunedig.
90. Casglwyd samplau defnyddiol o waith disgyblion yn holl bynciau'r CC i gynhyrchu casgliad ffurfiol o waith disgyblion. Mae'r gwaith mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi eu lefelu'n fras, a chaiff ei ddefnyddio'n dda i gefnogi'r addysgu a'r asesu. Mewn pynciau ar wahân i Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ceir diffyg manylder yn yr anodiadau i fod yn arf defnyddiol ar gyfer arfarniadau cadarn ar safonau.
91. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol. Yn yr adroddiadau a ddarperir ar gyfer y plant dan bump, rhoddir gwybodaeth fanwl ar gyfer y cynnydd tuag at y Canlyniadau Dysgu Dymunol yn y meysydd dysgu ar gyfer y plant yma. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, adroddir ar gynnydd disgyblion ym mhob pwnc, ond gyda mwy o fanylder mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Darperir cyfleoedd i rieni i roi sylwadau ar adroddiad eu plentyn, ac i ymweld â'r ysgol i'w drafod gyda'r athro dosbarth, yn ystod noswaith agored yn nhymor yr haf. Cynhelir noson agored ychwanegol i rieni yn ystod tymor yr hydref, ar gyfer trafodaethau cynnar ynglŷn â chynnydd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

92. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
93. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sydd yn hygyrch i'r holl ddisgyblion. Ceir nodweddion rhagorol i ansawdd cyffredinol y cwricwlwm yn nhermau cynllunio, trefniadaeth ac ansawdd. Cynigir profiadau cyfoethog iawn i'r disgyblion.
94. Mae cwricwlwm y plant dan bump yn canolbwyntio'n effeithiol iawn ar y Canlyniadau Dysgu Dymunol. Mae'r profiadau dysgu a gynigir yn diwallu anghenion a diddordebau'r plant ifanc yn dda iawn.
95. Mae'r ysgol yn diwallu dyheadau dysgwyr yn dda iawn yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 ac yn darparu gweithgareddau diddorol a heriol. Ceir polisiâu a chynlluniau gwaith ar gyfer yr holl bynciau sydd yn ffocysu'n dda iawn ac yn cynnwys cyfeiriad at ofynion cyffredinol rhaglen astudio'r CC. Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r cydlynwyr pwnc yn monitro'r cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod systemau effeithiol mewn lle i adeiladu'n effeithiol a systematig ar beth mae disgyblion yn gwybod.
96. Mae ansawdd y cynllunio ysgol-gyfan ar gyfer datblygu'r medrau allweddol yn dda. Cânt eu dynodi'n briodol mewn gwersi unigol ac o ganlyniad, mae disgyblion yn cyflawni'n dda mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r ffocws

ar feddwl yn annibynnol, datrys problemau a'r medrau allweddol yn nodwedd amlwg ac yn arbennig o flaenllaw yn y profiadau a gynllunnir fel rhan o'r cwricwlwm ar ddydd Gwener. Darperir cyfleoedd da i alluogi disgyblion i ddatblygu'r gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn parau neu grwpiau.

97. Trefnir nifer o ymweliadau pwrpasol i ystod eang o leoliadau, gan gynnwys theatrau, i bob dosbarth. Gwneir defnydd effeithiol iawn o amgueddfeydd ac orielau celf lleol a rhanbarthol.
98. Mae gan nifer o ymwelwyr, gan gynnwys athrawon teithiol, clerigwyr lleol, swyddog heddlu cymunedol, artistiaid, chwaraewyr, awduron cyfoes a gwleidyddion, rôl bwysig iawn yn yr ysgol. Mae'r profiadau a ddarperir gan yr athro cerdd teithiol o ansawdd arbennig o uchel.
99. Mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol yn nodwedd gref iawn o'r ddarpariaeth. Mae cerddoriaeth ac ystod o brofiadau chwaraeon yn cael lle amlwg yn ystod y cyfnodau hyn. Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion gael eu cynnwys mewn cystadlaethau chwaraeon gydag ysgolion eraill. Ar y cyfan caiff gwaith cartref ei dargedu'n dda ac mae'n adeiladu'n briodol ar brofiadau'r disgyblion yn yr ysgol.
100. Ceir ethos Cymreig cryf yn yr ysgol. Mae staff a disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg, sydd yn derbyn lle amlwg mewn nifer o'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Mae'r ysgol, fodd bynnag, yn cydnabod yr angen i fabwysiadu dull mwy trwyadl o ddatblygu ymhellach y defnydd o Gymraeg achlysurol mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol. Rhydd yr ysgol bwyslais da ar hybu diwylliant Cymreig a threftadaeth Cymru. Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd amlwg mewn nifer o bynciau ac ym mywyd cyffredinol yr ysgol.
101. Yn ychwanegol, ceir gweithdrefnau effeithiol iawn sydd wedi eu ffocysu'n dda iawn i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill, yn enwedig trwy astudio crefyddau eraill a thrwy eu gwaith mewn daearyddiaeth lle mae gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2 o ansawdd arbennig o uchel.
102. Ceir ymrwymiad clir iawn o gyfleoedd cyfartal i bawb. Mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen cynhwysiad effeithiol iawn. Mae hybu datblygiad ysbrydol disgyblion yn nodwedd gref iawn. Mae clerigwyr sy'n ymweld yn cyfrannu'n effeithiol iawn wrth arwain y gwasanaethau cyd-addoli, mae cyd-addoli'n cwrdd â'r gofynion statudol. Mae cerddoriaeth a chanu yn chwarae rhan bwysig iawn mewn gwasanaethau a cheir cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymryd rhan ac ar gyfer myfyrdod tawel. Yn ychwanegol, mae athrawon yn creu nifer o gyfleoedd i ddisgyblion i ehangu eu profiadau esthetig, mewn nifer o feysydd o gwricwlwm sydd yn ysgogol a llawn dychymyg.
103. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda iawn. Mae gwasanaethau cyd-addoli, gwersi addysg grefyddol, ABCh a sesiynau amser trafod yn ffocysu'n arbennig o dda ar werthoedd gofalgarn. Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o'r rhai sydd yn llai ffodus na nhw yn lleol ac yn y byd ehangach a chanolbwyntiant yn dda ar fentrau elusennol. Ceir cyfleoedd da ar gyfer cydweithio effeithiol o fewn grwpiau yn y dosbarth a chyfleoedd da i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a dangos menter trwy ymwneud â'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Gwna'r disgyblion hŷn gyfraniadau pwysig trwy eu rolau fel swyddogion ysgol a swyddogion diogelwch.

104. Mae'r rhaglen ABCCh yn treiddio holl agweddau o fywyd ysgol ac yn nodwedd gref iawn o'r ddarpariaeth. Ceir cynllun gwaith clir a chynhwysfawr a gwneir defnydd effeithiol o sesiynau amser trafod sydd yn nodwedd sefydledig o fywyd yr ysgol. Mae'r swyddog heddlu cymunedol yn gwneud cyfraniad pwysig iawn yn y cyd-destun yma. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o hybu iechyd yn arbennig o drawiadol. Mae'r ysgol ar gam pedwar o raglen yr ysgolion sydd yn hybu iechyd.
105. Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r rhieni, y gymuned leol, ysgolion eraill, sefydliadau addysg uwch a'r AU yn llwyddiannus gyda nodweddion sydd yn cyfoethogi bywyd a gwaith yr ysgol ac yn mwylhau profiadau dysgu'r disgyblion.
106. Mae rhieni'n gefnogol o'r ysgol. Yn y cyfarfod cyn-arolwg ac yn y nifer o holiaduron a ddychwelwyd i'r tîm arolygu, mynegodd nifer o rieni lefelau uchel o fodlonrwydd a gwerthfawrogant yr ymdeimlad o gymuned a feithrinir gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni'n dda trwy gylchlythyron rheolaidd ac adroddiad blynyddol manwl y corff llywodraethol. Mynychir y cyfarfodydd yn dda; mae rhieni yn cymryd rhan weithredol yn addysg eu plant ac mae nifer arwyddocaol yn gwneud cyfraniad da i fywyd beunyddiol yr ysgol. Mae cytundeb cartref/ysgol adeiladol mewn lle.
107. Gweithia'r ysgol yn agos gydag ysgolion cynradd lleol eraill. Mae ansawdd y trefniadau bugeiliol, gweinyddol a chwricwlaidd gyda'r ysgol uwchradd sydd yn derbyn y disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol.
108. Rhydd yr ysgol bartneriaeth gynhyrchiol iawn gyda sefydliad hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac mae'n darparu cyfleusterau hyfforddi darpar athrawon yn rheolaidd. Caiff myfyrwyr eu cefnogi a'u mentora'n dda gan y staff a gwnânt gyfraniad cadarnhaol i fywyd a gwaith yr ysgol. Ceir hefyd gysylltiadau effeithiol gyda cholegau lleol eraill.
109. Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda iawn gyda'r gymuned ac mae'n cyfrannu'n effeithiol iawn i nifer o agweddau o fywyd y gymuned. Seilir elfennau o'r cwricwlwm ar astudiaeth o'r ardal leol ac mae disgyblion yn cyfrannu i fywyd diwylliannol eu cymuned. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau cymunedol, yn mynychu gwasanaethau crefyddol mewn addoldai lleol ac mae ganddynt gysylltiadau cryf gyda chartrefi i'r henoed a'r cyngor cymunedol. Mae'r gymuned, yn ei thro, yn gefnogol iawn o'r ysgol.
110. Mae gan yr ysgol nifer o gysylltiadau o ansawdd dda gyda'r byd gwaith. Nid oes polisi ffurfiol penodol mewn lle ond gosodir cysylltiadau cwricwlaidd o fewn cynlluniau gwaith. Mae'r rhain yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o gysylltiadau gyda diwydiant a galwedigaethau yn y dyfodol.
111. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i gydraddoldeb a chyfartaledd cyfle i bawb ac anogir disgyblion yn weithredol i gyfranogi yn yr holl weithgareddau. Mae ethos gofalgwr yr ysgol yn galluogi disgyblion i ffynnu, teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
112. Hyrwyddir addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn llwyddiannus o fewn yr ysgol. Trwy amrywiaeth o brosiectau a mentrai ailgylchu, mae disgyblion yn ymwybodol o faterion lleol, cenedlaethol a fyd-eang mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae'r cyngor eco-ysgolion brwdfrydig yn ymwneud â gwaith gwerthfawr a seilir yn yr ysgol, er enghraifft, yr ardd ddysgu a'r ardal goetir.

113. Mae disgyblion yn mwynhau cyfrannu i'r gweithgareddau niferus ac amrywiol o fewn yr ysgol a chaiff y cyngor ysgol gweithgar ei gynnwys yn effeithiol o fewn yr ysgol ac wrth gyfrannu at elusennau. Mae'r disgyblion hefyd yn cefnogi'r Gymdeithas Rhieni Athrawon (CRhA) gyda'r siop bwydydd iach wythnosol llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fenter a arweinir gan ddisgyblion ar gyfer mwyhau eu medrau entrepreneuriaidd o'r gweithgaredd yma.
114. Mae profiadau'r disgyblion ar draws yr ysgol yn eu galluogi i ennill ystod dda o fedrau sydd yn amhrisiadwy ar gyfer dysgu gydol-oes. Mae'r rhain yn cynnwys medrau dwyieithrwydd a TGCh, gyda medrau personol a chymdeithasol da. Cydweithiant yn dda o'r blynyddoedd cynnar ac mae'r ysgol yn eu cefnogi'n dda yn eu hymdrechion i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

115. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae hyn oherwydd i'r ysgol oramcangyfrif ansawdd cyffredinol yr agwedd yma o'i gwaith.
116. Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd a ddarperir i'r holl ddisgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn sicrhau ystod eang o gyfleoedd addysgol a chymdeithasol, ac yn paratoi'r disgyblion yn effeithiol i fod yn bobl ifanc hyderus. Mae disgyblion yn hapus i droi at y staff sydd yn delio'n sensitif gydag unrhyw broblemau sydd yn codi.
117. Sefydlwyd cysylltiadau da gyda'r rhieni ac yn gyffredinol roedd yr ymatebion yn yr holiadur cyn-arolwg yn gadarnhaol. Mae canran uchel iawn o'r rhieni yn gwerthfawrogi gwaith yr ysgol, ond roedd hefyd ychydig o sylwadau negyddol. Mae'r staff bob amser yn barod i fod ar gael i weld rhieni ac yn rhagweithiol pan fod problemau yn codi.
118. Mae'r ymweliadau addysgol niferus a'r cysylltiadau agos gyda'r gymuned yn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu'r disgyblion yn arwyddocaol.
119. Ceir trefniadau anwytho sensitif er mwyn i'r plant ieuengaf yn yr ysgol ymgartrefu'n gyflym iawn a theimlo'n ddiogel. Mae'r cysylltiadau cynhwysfawr ac effeithiol gyda'r ysgol uwchradd yn sicrhau y paratoir disgyblion B6 yn dda ar gyfer trosglwyddo ysgol. Mae'r mentrau a'r cynlluniau sydd mewn lle yn sicrhau fod y cysylltiadau cwricwlaidd yn esmwyth, gyda chysondeb wrth fonitro ac asesu safonau disgyblion. Mae'r rhaglenni anwytho a throsglwyddo yma yn nodweddion rhagorol o'r ysgol.
120. Mae darparu ar gyfer anghenion unigol pob disgybl yn flaenoriaeth yn yr ysgol. Mae gan yr athrawon a'r staff cefnogi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r rhaglenni a'r gwasanaethau sydd ar gael, ac yn eu gweithredu'n sensitif ac effeithiol.
121. Gweinyddir cyfnodau cofrestru yn briodol. Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda iawn gyda'r swyddog lles addysg, a chaiff y polisïau a'r gweithdrefnau trylwyr ar gyfer monitro absenoldeb ac amrhydlondeb eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol iawn.

122. Mae gan yr ysgol bolisiau priodol ac ymdriniaeth gadarnhaol o unrhyw broblemau ymddygiadol. Mae amser trafodaeth yn rhan annatod o'r amserlen a chaiff ei ddefnyddio'n dda, er enghraifft pan fod problemau neu faterion o bryder yn codi.
123. Caiff diogelwch plant sylw da a goruchwylir cyfnodau chwarae ac amser cinio yn ofalus. Sefydlwyd polisiau a gweithdrefnau priodol i sicrhau lles a diogelwch y disgyblion, gan gynnwys amddiffyn plant, cyfleoedd cyfartal, cymorth cyntaf a driliau tân. Ymgymerir ag asesiadau risg yn briodol.
124. Rhoddir sylw da hefyd i ddatblygiad disgyblion gyda'r fenter 'Ysgolion Iach', y fwydlen iachus a'r siop ysgol. Mae clwb brecwast a gofal ar-ôl ysgol hefyd ar gael yn yr ysgol.
125. Mae gan bob disgybl fynediad lawn i raglenni ABCh yr ysgol, gyda chyfleoedd niferus i ddatblygu barnau ac ymagweddau trwy waith dosbarth, gwasanaethau ac amser trafodaeth. Defnyddia'r ysgol wasanaethau arbenigol, yn ôl yr angen, i gefnogi disgyblion unigol ac i sicrhau lles disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymgymryd ag archwiliad manwl i asesu argaeledd mynediad ar gyfer y rhai ag anabledd corfforol.
126. Caiff pob disgybl fynediad cyfartal i'r oll o weithgareddau'r ysgol, heb unrhyw wahaniaethu o ran rhyw, cymdeithas na hil. Mae'r ysgol yn cydnabod a pharchu amrywiaeth yn ei chwricwlwm, yn ystod gwasanaethau ac yn ei ethos gofalgar.
127. Mae gan yr ysgol weledigaeth glir a pholisi ar gyfer delio gydag unrhyw achosion o fwllian neu wahaniaethu. Mae disgyblion yn ddigon hyderus i droi at staff i adrodd am neu drafod materion. Mae gan yr ysgol system i ddelio gyda, cofnodi ac olrhain unrhyw achosion yn effeithiol.
128. Mae'r ddarpariaeth yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd a'r Saesneg fel iaith ychwanegol, yn dda. Mae'r cydlynnydd AAA yn brofiadol ac yn rheoli'r ddarpariaeth yn dda.
129. Caiff yr holl ddisgyblion sydd ag AAA eu hintegreiddio'n dda i mewn i ddsbarthiadau prif ffrwd, a derbyniant gefnogaeth ychwanegol da yn y dosbarth naill ai'n unigol neu o fewn grwpiau bychan, oddi wrth athrawon dosbarth a chymorthyddion addysgu. Caiff gwaith ei wahaniaethu'n briodol i ddarparu'r lefel cywir o her i ddisgyblion o wahanol alluoedd, a chaiff disgyblion llai galluog eu paru neu eu grwpio'n effeithiol gyda'r disgyblion mwy galluog ar gyfer rhai gweithgareddau.
130. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer dynodi disgyblion ag AAA ar gyfnod cynnar. Mae monitro gofalus yn dilyn unrhyw fynegiant o bryder gan athrawon neu rieni. Os yw'n amlwg fod rheswm da am bryder, rhoddir strategaethau mewn lle gyda chynghor y cydlynnydd AAA, a gellid eu defnyddio gan yr athro dosbarth a'r cymhorthydd addysgu. Os nad yw'r strategaethau yma yn effeithiol, gofynnir am gymorth a chefnogaeth bellach oddi wrth y gwasanaeth cefnogi dysgu neu'r seicolegydd addysg. Mae'r gefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd a'r Saesneg yn iaith ychwanegol yn dda.
131. Gyda chefnogaeth y cydlynnydd AAA, sicrhau'r athrawon dosbarth fod disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da trwy fonitro gofalus a'r ddarpariaeth o CAUau. Mae'r rhain yn cofnodi targedau penodol, yn amlinellu strategaethau i gyflawni'r targedau ac yn nodi pa staff fydd yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae rhaglen

estynedig o waith yn nodwedd o rhai CAUau. Cânt eu hintegreiddio i mewn i gynllunio tymor byr a'u monitro'n rheolaidd.

132. Caiff CAUau disgyblion sydd ar weithredu ysgol a gweithredu ysgol a mwy eu hadolygu yn ôl yr angen. Gwahoddir rhieni i gyfrannu i'r adolygiad ac wrth osod targedau newydd, a derbyniant gopi o CAU eu plentyn. Ymgymerir ag adolygiadau blynyddol ar gyfer disgyblion ag AAA gyda mewnbwn oddi wrth yr ysgol, y rhieni a'r holl o'r gwasanaethau cefnogi perthnasol.
133. Cefnogir disgyblion yn effeithiol gan gymorthyddion addysgu, a gan ystod o asiantaethau allanol, sydd yn cynnwys y seicolegydd addysg, yr athro llafaredd ac iaith a'r gwasanaeth cefnogi dysgu. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn cymorth oddi wrth therapyddion llafaredd a galwedigaethol ac athrawon ymgynghorol ar gyfer y rhai sydd â nam golwg neu glyw. Mae'r llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am AAA yn gymhorthydd yn yr ysgol ac yn gweithio'n agos gyda'r cydlynedd AAA i sicrhau darpariaeth o ansawdd dda.
134. Mae'r ysgol yn ymwybodol fod gan ddisgyblion dawnus a galluog anghenion dysgu ychwanegol ac mae ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â'r mater yma trwy'r amserlen dydd Gwener sydd yn cynnig cwricwlwm cerddoriaeth gyfoethog.
135. Defnyddir cyllid ychwanegol yn dda i dargedu datblygiad y medrau allweddol. Neilltuir grwpiau bychan o ddisgyblion yn wythnosol i weithio gydag athro ar brosiectau a gynllunnir i atgyfnerthu'r dysgu yn y dosbarth ac i gynyddu hunanhyder a hyfedredd disgyblion. Mae disgyblion B2 yn elwa oddi wrth sesiynau ychwanegol priodol a ddarperir ddwywaith yr wythnos gan gymhorthydd addysgu i helpu gyda hyn.
136. Mae ymddygiad disgyblion yn dda. Mae hyn o ganlyniad i gymhwyso'r polisi clir a strategaethau effeithiol. Caiff ymddygiad da ei hatgyfnerthu'n gadarnhaol trwy arddangos siarteri ymddygiad a rheolau dosbarth, ac mae'r camau a gymhwysir i ddelio gydag unrhyw gamymddygiad yn hysbys ac yn ddealladwy i'r disgyblion. Defnyddir amser trafodaeth ac 'Amser Aur' yn briodol i gynorthwyo disgyblion i ddeall eu hunain a'i gilydd, ac i sefydlu perthynas dda yn y dosbarth ac ar yr iard.
137. Caiff ymddygiad ei fonitro'n effeithiol ac, yn ôl y gofyn, gweithredir i gefnogi disgyblion sydd efallai yn profi anawsterau. Rhoddir rhaglen cefnogaeth fugeiliol mewn lle, sydd yn amlinellu'r anawsterau allweddol, targedau a strategaethau cefnogi, yn dynodi'r bobl bydd yn cyfrannu i'r rhaglen, ac yn llunio cytundeb rhwng y disgybl, y rhieni a'r ysgol. Mae'r ysgol a'r gwasanaeth cymorth ymddygiadol yn cydweithio'n dda i ddarparu ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiadol. Cafwyd un achos o waharddiad yn ystod y flwyddyn cyn yr arolygiad. Roedd rhieni yn y cyfarfod cyn-arolwg o'r farn fod yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

138. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

139. Mae'r radd ar gyfer y cwestiwn allweddol yma un radd yn uwch na ddyfarnwyd i gwestiwn allweddol 1. Mae hyn oherwydd tra roedd rhai nodweddion rhagorol mewn safonau cyflawniad y disgyblion, nid oedd yn ddigonol i gefnogi'r radd uwch.
140. Ceir nifer o nodweddion cryf iawn i'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth a nifer o gryfderau arwyddocaol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus iawn fel cymuned briodol ac effeithiol iawn, er waetha'r newidiadau staff sylweddol o ganlyniad i absenoldeb tymor hir staff oherwydd salwch. Mae gan yr uwch dîm reoli dealltwriaeth glir iawn o sut i hyrwyddo disgwyliadau uchel o'r holl staff ar draws yr ysgol, a sut i annog yn llwyddiannus iawn, amgylchedd lle mae'r holl staff yn cydweithio'n gydlynol.
141. Mae'r pennaeth, yn cydweithio'n agos gyda'r dirprwy bennaeth, yn darparu arweiniad cryf iawn. Ceir gweledigaeth glir iawn, a rhennir gan yr holl staff sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd i ddarparu addysg o ansawdd uchel i'r holl ddisgyblion, mewn amgylchedd adeiladol a chefnogol y naill at y llall. Gweithredir datganiad o genhadaeth yr ysgol yn llwyr. Mae ysbryd y staff yn uchel iawn.
142. Cyflawnwyd llawer yn ddiweddar, er enghraifft wrth hyrwyddo safonau da o ran cyflawniad yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 ac wrth adolygu'r drefniadaeth a'r cynllunio ar gyfer y plant dan bump. Cydweithia'r staff yn agos ac yn frwdfrydig gyda'r uwch dîm reoli i adolygu cynnydd mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ofalus ac i ddefnyddio asesiadau dibynadwy eraill i olrhain cynnydd disgyblion yn y pynciau yma. Sicrhânt y caiff yr holl ddisgyblion eu trin yn gyfartal a theg. Fodd bynnag, tra bod casgliadau o waith disgyblion mewn pynciau eraill yn cael eu casglu i enghreifftio dyfnder a chydbwysedd y cwricwlwm, ceir diffyg dynodi clir yn rhain o'r safonau y dylai disgyblion anelu i'w cyflawni flwyddyn ar flwyddyn.
143. Mae'r ysgol yn cymryd ystyriaeth ofalus iawn o flaenoriaethau cenedlaethol a mentrau lleol. Ceir clybiau brechwast ac ar ôl ysgol a gefnogir yn dda. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ar yn llwyddiannus wrth gynorthwyo annog disgyblion i gael ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb ac i fod yn ymwybodol iawn o'r broses ddemocratig. Mae'r paratodau gogyfer â chyflwyno'r cyfnod sylfaen yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r staff sydd yn bennaf ynghlwm a hyn wedi mynychu nifer o gyrsiau ac wedi ymweld â lleoliadau eraill i barhau i ddatblygu trefniadau a strategaethau ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol yn yr ardal yma o'r ysgol. Mae trefniadau i ddarparu amser i athrawon yn ystod yr wythnos addysgu i gynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol iawn a chânt eu rheoli'n dda iawn. Mae'r trefniadau yma yn help i ychwanegu'n sylweddol at ansawdd yr addysg a ddarperir. Gwneir y disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ffyrdd iach o fyw.
144. Anogir disgyblion yn llwyddiannus i feddwl â'n faterion ecolegol ac amgylcheddol. Ar hyn o bryd, er enghraifft, mae'r ysgol yn ceisio ennill Gwobr Aur Eco-Sgolion am ei hymdrechion yn y maes yma. Mae'r ysgol yn cydnabod ei chyfrifoldeb i hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr addysgu a'r dysgu ond nid yw wedi datblygu cysondeb yn ei thriniaeth o'r fenter yma. Ceir hefyd partneriaethau cryf gyda'r ysgol uwchradd leol y mae mwyafrif y disgyblion yn trosglwyddo iddi a gyda cholegau ac athrofeydd addysg uwch cyfagos.
145. Mae trefniadau cynhwysfawr iawn a rhagorol mewn lle i'r pennaeth, yr uwch dîm reoli a chydlynwyr pynciau unigol, ar sail gynlluniedig, i adolygu ansawdd yr

addysgu a'r dysgu a chynnydd yn y mentrau mae'r ysgol yn eu dilyn. Maent oll yn rheoli eu cyfrifoldebau yn gydwobodol ac effeithiol iawn. Ceir trefniadau manwl ac effeithiol i gefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon sydd yn newydd i'r ysgol. Mae'r athrawon yma yn canmol yn fawr y cymorth maent wedi derbyn ers cychwyn yn yr ysgol. Mae'r holl athrawon yn cydweithio'n adeiladol iawn, yn rhannu arbenigedd a syniadau'n barod.

146. Mae trefniadau i reoli a hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn helaeth ac wedi eu sefydlu'n dda. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae staff yn ymwybodol iawn o'u targedau ar gyfer gwelliant sydd yn cydweddu'n briodol i'r CGY.
147. Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn ymrwymedig iawn i'r ysgol ac yn darparu arweiniad clir. Mae'r llywodraethwyr yn gweithio'n agos iawn gyda'r pennaeth a'r staff. Cânt eu hysbysu'n dda, yn aml trwy ymweliadau anffurfiol a thrwy adroddiadau manwl gan y pennaeth, dirprwy bennaeth a'r cydlynwyr am y cynnydd a wneir, i benderfyniadau maent wedi cymryd. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos ac effeithiol gyda'r pennaeth i osod cyfeiriad hirdymor i'r ysgol.
148. Caiff cyllid yr ysgol ei rheoli'n ddoeth ac arddangosa'r llywodraethwyr dealltwriaeth dda iawn o sut i sicrhau fod pryniant yn darparu'r gwerth orau am arian. Adolygir penderfyniadau gwariant yn drwyadl. Mae llywodraethwyr yn gweithredu'n adeiladol ac effeithiol fel ffrind beirniadol i'r staff proffesiynol ac yn eu dal i gyfrif. Mae'r llywodraethwyr yn diwallu'r oll o'u cyfrifoldebau statudol yn llawn.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

149. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hunan arfarniad. Mae hyn oherwydd i'r ysgol goramcangyfrif pa mor dda mae'n monitro a gwerthuso ei pherfformiad a'i heffeithiolrwydd wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Tra darganfu'r tîm arolygu nifer o nodweddion da yn agwedd yma o waith yr ysgol, nid oedd y rhain yn nodweddion digon rhagorol i gyfiawnhau gradd yn uwch.
150. Mae'r broses o gasglu gwybodaeth ynghyd am berfformiad yr ysgol ac o ddynodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer datblygiad yn gadarn. Mae wedi ei seilio'n gadarn ar safbwyntiau pawb sydd ynghlwm wrth yr ysgol ac yn cymryd ystyriaeth o adolygiadau diweddar o effeithiolrwydd yr ysgol gan yr AU. Caiff yr holl staff eu hysbysu'n dda iawn am eu meysydd o gyfrifoldeb ac maent wedi cyfrannu'n fanwl i'r broses o werthuso beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a lle mae angen gwelliant. Dynodir y manylion ystadegol mae'r ysgol yn casglu ar berfformiad disgyblion mewn asesiadau cenedlaethol a rhai dibynadwy eraill yn ofalus.
151. Lluniwyd dogfen hunan arfarnu'r ysgol yn dda. Mae wedi ei drefnu'n glir a'i berthnasu'n agos i'r sail tystiolaeth ar gyfer yr arfarniadau a wneir. Mae'n dynodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad yn ddidwyll. Ceir cysylltiadau a luniwyd yn ofalus iawn gyda'r CGY a chaiff ei ddefnyddio'n dda fel dogfen weithiol i hyrwyddo gwelliant ysgol parhaus. Mae'r holl lywodraethwyr a staff proffesiynol

wedi gwneud cyfraniadau arwyddocaol i'r broses hunan arfarnu ac i ffurfio'r ddogfen.

152. Mae'r CGY yn ffocysu'n gywir ar anghenion yr ysgol. Mae wedi ei lunio'n dda a'i gysylltu'n agos gyda phroses hunan arfarnu'r ysgol. Mae'n cynnwys prisiadau a dulliau manwl o arfarnu llwyddiant. Mae trefniadau effeithiol mewn lle i fynd i'r afael â'r gofynion i ddarparu amser i'r athrawon i gynllunio, paratoi ac asesu yn ystod yr wythnos addysgu. Mae hefyd cylchred a sefydlwyd yn dda mewn lle sydd yn cysylltu'r CGY gyda gweithdrefnau rheoli perfformiad a blaenoriaethau.
153. Yn gyffredinol, mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda dynodiad yr ysgol o'i chryfderau a'i gwendidau. Mae'r tîm arolygu hefyd yn cytuno gyda pheth ond nid oll o'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hunan arfarnu. Lle mae'r tîm arolygu yn anghytuno, mae'r ysgol wedi goramcangyfrif o un radd pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni, ansawdd cyffredinol y gofal, y cyfarwyddyd a'r cymorth mae'n darparu ar gyfer dysgwyr a pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthuso a gwella ansawdd a safonau.
154. Ers yr arolygiad diwethaf mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol ar gyfer gwelliant. Mae safonau wedi gwella. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y plant dan bum mlwydd oed bellach yn llawer gwell nag oedd o. Deallir polisi gwaith cartref yr ysgol yn dda gan ddisgyblion, athrawon a rhieni a chaiff ei weithredu'n gyson.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

155. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
156. Ceir nifer digonol o staff a chymwysterau da i ddiwallu anghenion dysgu, personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r staff cefnogi hefyd wedi eu cymhwyso yn dda a'i lleoli'n effeithiol.
157. Ceir cyflenwad da iawn o adnoddau a drefnwyd yn dda yn yr ysgol ar gyfer pob grŵp oedran, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar. Gwneir defnydd da iawn ac effeithiol ohonynt. Mae gan bob dosbarth yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 fyrddau gwyn rhyngweithiol a'r ystod iawn o gyfarpar clyweled a TGCh. Mae gan y buddsoddiad yma effaith gadarnhaol ar ddysgu ac mae'n galluogi'r ysgol i ddarparu cwricwlwm eang ac amrywiol.
158. Caiff adeiladau'r ysgol a'r ardaloedd tu allan eu cynnal yn dda, felly hefyd y cae a'r ardal coetir cyfagos. Mae'r muriau terfyn, y ffensiau a'r gatiau i gyd mewn cyflwr da. Mae safonau glendid ar gyfer yr holl o adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol yn dda. Mae'r disgyblion a'r oedolion yn trin y cyfleusterau gyda pharch.
159. Yn gyffredinol mae'r lleoliad a'r gefnogaeth ar gyfer staff yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn lleoli a rheoli staff yn dda iawn. Derbynia'r athrawon sydd newydd gymhwyso mentora a chefnogaeth sydd wedi ffocysu'n dda iawn. Mae arweinwyr cwricwlwm yn cyfrannu'n effeithiol iawn i ddatblygiad eu pynciau. Rheolir amser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol a gwneir defnydd da o arbenigedd athrawon a chynorthwywyr dysgu yn y cyd-destun yma. Mae gan yr ysgol staff cefnogi

dosbarth brwdfrydig ac effeithiol iawn. Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd, sydd yn rhoi amlinelliad clir o'u cyfrifoldebau.

160. Mae athrawon a chynorthwywyr cefnogi dysgu yn mynychu ystod dda iawn o sesiynau hyfforddi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u dealltwriaeth. Cydweithia'r athrawon a'u cynorthwywyr yn effeithiol iawn fel tîm ac maent yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi ei gilydd mewn ffordd ymroddedig iawn. Gwneir defnydd rhagorol o ymwelwyr â'r ysgol, yn enwedig yr athro cerdd teithiol.
161. Mae tîm ysgrifenyddol yr ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i reolweithiau beunyddiol, esmwyth, hynaws ac effeithiol yr ysgol. Mae'r gofalwr a'i dîm yn gweithio'n galed i gadw'r ysgol yn lân a thaclus ar gyfer y disgyblion.
162. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r safle a'r adeiladau. Un o gryfderau rhagorol yr ysgol yw safon uchel iawn yr arddangosfeydd, sydd yn cyfrannu'n fawr at awyrgylch ysgogol ag esthetig yr ysgol, sydd yn nodwedd o fywyd yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r neuadd ar gyfer gwasanaethau ac addysg gorfforol. Ceir man chwarae priodol ar gyfer y plant dan bump sydd wedi ei hadnoddu'n dda iawn. Gwnaed defnydd da o brosiect gwella ysgol i sefydlu ardal natur eang.
163. Mae defnydd yr ysgol o'r adnoddau sydd ar gael yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae adnoddau yn cyfateb yn effeithiol iawn i flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygiad. Cynhelir adolygiadau blynyddol i sicrhau digonolrwydd ac addasrwydd adnoddau. Yn gyffredinol, ceir ystod dda iawn o adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm; mae'r adnoddau yn briodol i wahanol anghenion y disgyblion. Ceir cyflenwad da iawn o adnoddau ar gyfer y plant dan bump. Ceir bwrdd gwyn rhyngweithiol, a gaiff ei ddefnyddio'n arbennig o dda ym mhob dosbarth. Ceir cyflenwad da o gyfrifiaduron ym mhob dosbarth. Gwneir defnydd cyffredinol da iawn o'r adnoddau er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn derbyn profiadau dysgu da iawn.
164. Sicrha'r rheolwyr defnydd effeithiol o'r cyllid a chaiff y corff llywodraethol llawn ei gynnwys ym mhob penderfyniad gwariant. Caiff gwariant ei adolygu'n rheolaidd ac effeithiol i sicrhau'r gwerth orau am arian. Caiff penderfyniadau gwariant yr ysgol eu cysylltu'n ofalus iawn gyda'r cynlluniau ar gyfer datblygiad. Gwneir defnydd effeithiol iawn o gyfraniadau'r CRhA a nifer o grantiau ychwanegol megis y rhai ar gyfer codi safonau llythrennedd. Mae nifer o benderfyniadau gwariant penodol wedi bod yn gyfryngol wrth symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'r rhain yn cynnwys y buddsoddiad effeithiol mewn TGCh, cynlluniau gwaith ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth a'r cyllid ar gyfer y cynorthwywyr dosbarth niferus.
165. O ystyried y safonau mae disgyblion yn cyflawni erbyn eu bod yn 11 mlwydd oed, yn aml o ychydig yn is na'r pwynt cychwyn cyfartalog, ac ansawdd cyffredinol yr addysg a ddarperir, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cydnabod ein bod, yn y mwyafrif o ffyrdd, wedi cynnal y safonau uchel ers ein harolygiad diwethaf ac wedi gwella safonau yn y blynyddoedd cynnar. Rydym yn hapus fod yr arolygwyr wedi canfod fod agweddau'r disgyblion tuag at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i weithio'n barod ac yn llwyddiannus gyda'i gilydd yn nodweddion rhagorol. Yn ychwanegol, bod y systemau gofal a chefnogi sydd gennym mewn lle ac sydd yn tanategu ein darpariaeth gwricwlaidd yn cael eu cydnabod i fod yn briodol ac effeithiol. Caiff medr, ymroddiad a gwaith tîm yr athrawon a gofal, dawn ac effeithiolrwydd y staff cefnogi eu cydnabod yn briodol. Yn bwysicaf oll, gwna adroddiad yr arolygiad yn glir yr elfennau sydd yn gwneud ein hysgol yr hyn ydyw. Yn benodol, mae'r adroddiad yn dynodi ein bod yn cyflawni ein nod o wneud ein hysgol yn lle hapus a diogel lle mae'r disgyblion yn tyfu mewn hyder ac annibyniaeth gydag agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.

Caiff cynllun gweithredu ei rhoi mewn lle i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad. Credwn y fedrwn fyd i'r afael yn hyderus â'r angen i wella ein lefelau presenoldeb, a'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dwyieithrwydd wrth gwblhau'r broses o greu casgliadau o waith disgyblion gan ddynodi'r safonau y dylent gyflawni flwyddyn ar flwyddyn. Rydym eisoes yn mynd i'r afael â safon y darllen Cymraeg a ddynodwyd gan yr arolygwyr yn yr adroddiad.

Lle mae'n bosibl gwneud hynny, bydd staff a llywodraethwyr yn mynd i'r afael â'r argymhellion cyn diwedd y flwyddyn academaidd. Bydd codi medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn flaenoriaeth a byddwn yn sicrhau y caiff hyn ei gynnwys yn ein cynllun gwella ysgol. Er mwyn cyflawni'r uchod, byddwn yn darparu cyfleoedd hyfforddi i'r staff i wella eu gwybodaeth a'u medrau mewn dwyieithrwydd er mwyn i'r disgyblion ddod yn fwy hyderus i ddefnyddio Cymraeg achlysurol. Yn ychwanegol, byddwn yn adnewyddu ein gweithdrefnau presenoldeb mewn ymgynghoriaeth â'r gwasanaeth lles addysg.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Alltwn
Math o ysgol	Meithrin a chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3 - 11
Cyfeiriad yr ysgol	Alltwn Hill Alltwn Pontardawe Abertawe
Cod post	SA8 3AB
Rhif ffôn	01792 863275

Pennaeth	Miss A E Davies
Dyddiad penodi	Ionawr 1999
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr N H Rees
Arolygydd cofrestredig	Mr Peter Mathias
Dyddiadau'r arolygiad	27 ^{ain} -29 ^{ain} Mawrth 2007

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	20	28	28	31	40	44	37	29	277

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	12	0.5	12.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	22:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	10:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	D/B
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	28.5
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2006	84.8	89.9	89.3
Haf 2006	84.2	88.2	91.2
Hydref 2006	88.6	92.8	93

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	27
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	1

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006			Nifer y disgyblion yn B2		37		
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Saesneg:	Aseiad athro	Ysgol	0	3	11	86	0
		Cenedlaethol	0	4	12	64	20
Saesneg: darllen	Aseiad athro	Ysgol	0	3	14	70	14
		Cenedlaethol	0	4	14	56	26
Saesneg: ysgrifennu	Aseiad athro	Ysgol	0	5	24	70	0
		Cenedlaethol	0	5	14	69	12
Saesneg: siarad a gwranddo	Aseiad athro	Ysgol	0	0	3	97	0
		Cenedlaethol	0	2	11	64	23
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	14	86	0
		Cenedlaethol	0	2	10	63	24
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	16	84	0
		Cenedlaethol	0	2	19	65	24

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro

Yn yr ysgol	81.08	Yng Nghymru	80.6
-------------	-------	-------------	------

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006			Nifer y disgyblion yn B6		40						
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	3	10	55	33	0	0
		Cenedlaethol	1	0	1	4	15	47	0	1	0
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	3	13	48	38	0	0
		Cenedlaethol	1	0	1	3	15	47	32	1	0
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	3	55	43	0	0
		Cenedlaethol	1	0	0	2	11	51	35	1	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)

yn ôl aseiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	80.0	Yn yr ysgol	80.0
Yng Nghymru	74.3	Yng Nghymru	74.3

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Ymgwymerwyd yr arolygiad gan dîm o bedwar arolygydd, ynghyd ag enwebai o'r ysgol, oedd yn bresennol yn yr ysgol am naw diwrnod arolygydd.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolwg gyda'r rhieni a'r corff llywodraethol i drafod bywyd a gwaith yr ysgol.
- Cwblhawyd 66 o holiaduron gan rieni a chafodd y rhain eu dadansoddi'n ofalus.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth, staff gyda chyfrifoldebau a'r staff cefnogi.
- Archwiliwyd dogfennaeth ysgol a samplau o waith disgyblion.
- Arsylwyd ar 30 o wersi neu sesiynau.
- Archwiliwyd samplau o waith disgyblion ar draws yr ystod oedran ac ym mhob grŵp blwyddyn.
- Gwrandawodd arolygwyr ar sampl o ddisgyblion o bob grŵp blwyddyn yn darllen.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion am eu gwaith ac am fywyd yr ysgol.
- Arsylwyd ar ymddygiad disgyblion yn ystod cyfnodau egwyl, amser cinio ac ar ddechrau a diwedd sesiynau'r ysgol.
- Roedd arolygwyr yn bresennol yn y gwasanaethau ac yn arsylwi ar weithgareddau allgyrsiol.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolwg gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Team member	Responsibilities
Mr Peter Mathias (Arolygydd cofrestredig)	Cyd-destun, Crynodeb ac Argymhellion Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1 a 2 Cwestiynau Allweddol 5 a 6 Atodiadau
Mrs Marian Donovan (Arolygydd Lleyg)	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1, 3, 4 a 7
Mrs Rhiannon Harris (Arolygydd tîm)	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 2 a 4
Mr Brinley Jones (Arolygydd tîm)	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 3 a 7
Miss Beth Davies (Pennaeth/enwebai)	Cyfraniadau i'r holl Gwestiynau Allweddol

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.

Contractwr:

EPPC-Severn Crossing Cyf
Swit H, Tŷ Britannic
Llandarsi
Castell Nedd SA10 6JQ